**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TRWYDDEDU 2003**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 10 Medi 2019 am 4.30 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy CF40 2XX.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu 2003 Aelodau oedd yn bresennol:-:-

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd T Williams |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd P Howe | Y Cynghorydd L Jones |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms R Hope, Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol

**12 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A. Fox, S. Bradwick, E. Webster, A. Cox a S. Powderhill.

**13 CYHOEDDIAD GAN Y CADEIRYDD**

Roedd y Cadeirydd yn dymuno llongyfarch y Cynghorydd A. Fox ar ran y Pwyllgor Trwyddedu, ar enedigaeth ei ferch.

**14 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**15 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANRHEFN**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**16 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2019 a 29 Gorffennaf 2019 yn rhai cywir.

## 17 ADOLYGIAD O DDEDDF TRWYDDEDU 2003 AC O DDEDDF GAMBLO 2005

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd adroddiad chwarterol i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn trafod materion perthnasol mewn perthynas â Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005, yn ogystal â materion atodol eraill sy'n codi o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Nododd yr adroddiad fod cynnydd wedi bod yn nifer yr Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro (TENs), sy'n ddisgwyliedig ar gyfer adeg yma'r flwyddyn yn dilyn misoedd yr haf.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth na fu unrhyw geisiadau a wrthwynebwyd ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bu dau Adolygiad, ac roedd un ohonyn nhw ar gyfer Family Shopper, y Porth, lle penderfynodd yr Aelodau ddirymu'r drwydded; a'r ail ar gyfer Chicken and Kebab Land, Pontypridd, lle penderfynodd yr Aelodau atal y drwydded am ddau fis. Cafodd yr aelodau wybod bod y penderfyniad ar gyfer Chicken and Kebab Land wedi cael ei herio a'i restru ar gyfer Gwrandawiad Apêl yn Llys Ynadon Merthyr, ac y byddai'r canlyniad yn cael ei adrodd i gyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor Trwyddedu (yn eistedd yn ei rôl o dan Ddeddf Trwyddedu 2003).

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at adran 4.3 yr adroddiad lle mae arolygiadau o eiddo a thor rheolau'n cael eu hamlinellu. Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod 91% o'r adeiladau a arolygwyd yn cydymffurfio ar y cyfan. Roedd hyn yn gynnydd ers adroddiad blaenorol y Pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog drosolwg o'r gwaith a gafodd ei gyflawni gan y carfanau Trwyddedu ar y cyd â charfanau Trwyddedu'r Heddlu ledled Cwm Cynon, Cwm Rhondda a Thaf-elái yn ystod y cyfnod. Dysgodd yr aelodau fod swyddogion wedi mynychu nifer o gyfarfodydd cyngor cyn ymgeisio, ar gyfer digwyddiadau ar raddfa fach ac ar raddfa fwy fel Cegaid o Fwyd Cymru a Ponty's Big Weekend, a oedd yn llwyddiannus. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw faterion o bwys.

Aeth y swyddog ymlaen i siarad am y sefydliadau lluniaeth hwyr y nos yn Ardal y Tymbl, Pontypridd, a chynghorodd yr Aelodau fod problemau yn dal i fodoli ynghylch diffyg cydymffurfio.

Gan gyfeirio at honiadau bod staff drws yn defnyddio cyffuriau mewn clwb nos lleol yn Aberdâr, dywedodd y swyddog, er na nodwyd unrhyw gamweddau, nad oedd polisi ar atafaelu cyffuriau. Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod gwaith yn cael ei wneud gyda Heddlu De Cymru i lunio polisi cyffuriau sydd wedi'i eirio mewn ffordd newydd. Y gobaith yw y byddai'n cael ei weithredu yn y dyfodol agos.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod i'r Aelodau, yn dilyn ymarferion prynu prawf a gynhaliwyd gan Safonau Trwyddedu a Masnachu ar gyfer gwerthu alcohol i bobl ifainc o dan 18 oed, cafodd alcohol ei werthu i ferch 15 oed yng Nghwm Cynon. Sicrhawyd yr aelodau bod y digwyddiad yn cael ei ymchwilio.

O ran gamblo, cafodd yr Aelodau wybod bod archwiliadau o adeiladau wedi'u cynnal am y tro cyntaf mewn nifer o flynyddoedd ac y canfuwyd bod yr holl adeiladau yng Nghwm Rhondda yn cydymffurfio'n llawn. Sicrhaodd y swyddog yr Aelodau fod arolygiadau mewn ardaloedd eraill yn parhau ac y byddai'r

canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r cyfarfod priodol nesaf.

**PENDERFYNWYD**:-

a) Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Trwyddedu 2003** a;
b) Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Gamblo 2005.**

**18 ADOLYGU DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU 2020–2025**

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd ddarparu Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 2020-2025 i'r Pwyllgor Trwyddedu, a oedd yn cynnwys y diwygiadau a'r diwygiadau arfaethedig a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu ar 10 Medi 2019, ar y cyd â sylwadau a wnaed yn ystod y broses ymgysylltu â'r cyhoedd.

Adroddwyd manylion y newidiadau allweddol i'r Polisi Trwyddedu i'r Pwyllgor a thynnodd y swyddog sylw'r Aelodau at y Datganiad Polisi ar gyfer 2020-2025, a atgynhyrchwyd yn Atodiad 1.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, pe bai'r Aelodau'n cymeradwyo'r Datganiad Polisi Trwyddedu, y byddai'r Adain Weithredol yn ei ystyried ar 24 Medi ac yn amodol ar gymeradwyaeth, byddai'r Cyngor yn ei ystyried i'w fabwysiadu ym mis Tachwedd 2019.

**PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r Datganiad Polisi Trwyddedu newydd 2020-2025 a chymeradwyo'r Datganiad diwygiedig i'r Cabinet i'w ystyried cyn i argymhelliad gael ei wneud i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

**19 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**20 TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 27.05.19 - 25.08.19**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd fanylion i'r Pwyllgor am drwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod o 27 Mai, 2019 i 25 Awst, 2019.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 pm**

**Y Cynghorydd D Williams**
**Cadeirydd.**